

Ymddiriedolaeth Natur
**De a Gorllewin Cymru**
Wildlife Trust of
**South & West Wales**

# *Rheolwr Masnchol*
# Pecyn Recriwtio

© Ben Porter

# Amdanom ni

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn elusen sydd wedi ymrwymo i warchod llecynnau gwyllt mwyaf gwerthfawr y rhanbarth ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Rydyn ni'n gweithio yn ein gwarchodfeydd a thu hwnt i ailadeiladu bioamrywiaeth ar draws y rhanbarth. Rydyn ni'n gweithio i rymuso unigolion a chymunedau i weithredu dros y byd naturiol. Rydyn ni'n ymgyrchu dros well gwarchodaeth i'n hamgylchedd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae gennym ni fwy na 9000 o aelodau, 500 o wirfoddolwyr ac rydyn ni'n rheoli mwy na 2000 o hectarau o dir mewn mwy na 100 o warchodfeydd natur, gan gynnwys Ynysoedd Sgomer a Sgogwm. Rydyn ni'n un o 46 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DU. Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn elusen annibynnol sy'n golygu ein bod yn gallu ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol yn gyflym, ond gallwn hefyd ddefnyddio dylanwad ein partneriaid yn yr Ymddiriedolaethau Natur eraill ledled y DU pan mae angen cryfder mewn niferoedd.




# Ein nodau

Rydyn ni am fynd i'r afael â'r argyfwng sy'n wynebu natur a'r hinsawdd, yn ogystal â'r pellter cynyddol rhwng cymdeithas a byd natur. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod, sy'n cyd-fynd â strategaeth yr Ymddiriedolaethau Natur.

1. **Gweithredu ar gyfer natur:** 30% o dir a môr yn cael ei reoli ar gyfer natur erbyn 2030.

2. **Gweithredu gyda phobl:** bydd mwy o bobl, o gefndiroedd mwy amrywiol, yn cymryd camau ystyrlon dros natur a'r hinsawdd.

3. **Gweithredu ar yr hinsawdd:** annog atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

**Mae ein strategaeth gyfredol ar gael i'w darllen yma.**

# Sut rydyn ni'n gweithio



## Gwerth cynhenid natur

Mewn byd lle mae gwerth byd natur yn fwyfwy cysylltiedig â'i werth i bobl, byddwn yn hyrwyddo gwerth hollbwysig bywyd gwyllt.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydyn ni wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein sefydliad ac yn ein gwaith gydag eraill.

## Iechyd a llesiant

Mae iechyd a lles ein gweithwyr yn bwysig i ni. Rydyn ni'n ceisio meithrin diwylliant iach ar bob lefel o'n sefydliad.

## Yr iaith Cymraeg

Byddwn yn annog ac yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, yn ogystal â staff sy'n siarad Cymraeg ond sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith, i barhau i ddatblygu'n broffesiynol.

## Allbynnau a canlyniadau

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan allbynnau a chanlyniadau, gan ganiatáu i'n staff weithio'n hyblyg a defnyddio eu cryfderau i gyflawni pob nod. Rydyn ni'n meithrin ymddiriedaeth ac ymreolaeth i ganiatáu i bawb weithio i'w botensial llawn.

## Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn rhan sefydlog ac annatod o'n gwaith. Rydyn ni'n croesawu gwirfoddolwyr ac yn eu hannog i gyfrannu at weithgareddau'r sefydliad ar bob lefel.

# Cyfleoedd cyfartal

Rydyn ni wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gynyddu amrywiaeth ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector cadwraeth, yn enwedig pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel. Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf, cofiwch gyflwyno cais. Gallwn ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i'r ymgeisydd priodol.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydyn ni'n gwarantu cyfweliad i bob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd wag. Rhowch wybod i ni os oes arnoch chi angen unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw gam o'r broses ymgeisio neu gyfweld.

# *Rheolwr Masnchol*
# Disgrifiad swydd

**Contract:** parhaol, 35 yr wythnos gydag oriau hyblyg / TOIL

**Cyflog:** £37,000 - £39,000

**Lleoliad gwaith:** Pen-y-bont ar Ogwr gyda rhywfaint o weithio gartref a theithio ledled ein hardal

**Tîm:** DWT Enterprises Ltd  (cangen fasnachu)

**Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol, rhan o'r Uwch Dîm Rheoli


**Yn gyfrifol am:** Hyd at 6 o bobl sy'n adrodd yn uniongyrchol

## Pwrpas cyffredinol y swydd

- Sbarduno incwm ein cangen fasnachu (DWT Enterprises Ltd) a sicrhau bod ein cangen fasnachu'n gweithio'n effeithiol i gefnogi'r elusen drwy gynhyrchu'r incwm digyfyngiad yma

- Goruchwylio seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr, gan sicrhau rheolaeth a chynnal a chadw da.

- Cefnogi tîm y gangen fasnachu, gan gynnwys help ymarferol ar gyfer cyfnodau o wyliau blynyddol neu salwch.




# Prif gyfrifoldebau

- Gosod a monitro cyflawni’r gyllideb flynyddol ar gyfer ein cangen fasnachu gyda mewnbwn gan y gwahanol dimau o fewn ein cangen fasnachu. Mae hyn yn cynnwys adrodd i Fwrdd DWT (rhan o'r Pwyllgor Cyllid).
- Darparu cyfeiriad, cyngor a chefnogaeth ar gyfer gweithrediadau manwerthu, arlwyo a llety, gan gynnwys hosteli'r ynysoedd, y siop ar-lein a phob canolfan ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys rheoli rheolwyr y canolfannau ymwelwyr, Prif Gogydd WWC a Swyddog Archebion yr Ynysoedd. Sicrhau perfformiad da, cysylltiadau rhwng siopau, brandio, cynaliadwyedd ac ati. Cefnogi staff arweiniol ym mhob lleoliad i adolygu perfformiad, adolygu cynhyrchion / cynigion a phennu targedau.
- Goruchwylio seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr, gan gynnwys canolfannau ymwelwyr, adeiladau'r ynysoedd a llety ymwelwyr i sicrhau bod yr adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw ac mewn cyflwr da. Mae hyn yn cynnwys helpu i nodi cyfleoedd am arian grant ar gyfer adnewyddu / uwchraddio a rheoli hawliadau grant perthnasol.
- Cefnogi a datblygu systemau archebu a gweinyddu llety'r Ynysoedd. Bydd hyn yn cynnwys help ymarferol yn ystod y cyfnod archebu blaenoriaeth.
- Cysylltu â Phennaeth yr Ynysoedd a'r Adran Forol i reoli'r berthynas gyda Dale Sailing, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a rhanddeiliaid lleol eraill ar gyfer yr Ynysoedd, gan weithio gyda staff yr Ynysoedd a staff Lockley Lodge.
- Ymgysylltu â rhwydweithiau twristiaeth lleol a bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys dealltwriaeth o ABTA, rheolau cofrestru llety gwyliau newydd ac ati.
- Cyngor ar faterion Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â gweithrediadau DWT, gan gynnwys cymryd rhan yn y gweithgor Iechyd a Diogelwch ac adrodd i'r pwyllgor Iechyd a Diogelwch.
- Cysylltu â'r tîm codi arian a chyfathrebu ynghylch marchnata a chyfathrebu i godi proffil ein hallfeydd sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr ac i sicrhau bod y brandio yn unol â'r elusen.
- Archwilio cyfleoedd ehangach ar gyfer incwm a enillir drwy'r gangen fasnachu neu'r elusen i gynyddu incwm digyfyngiad.
- Mae'r swydd hon yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli ac felly mae hefyd yn ymwneud â busnes a strategaeth ehangach yr elusen.
-

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill. Dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae pob aelod o staff yn llysgennad i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol. Mae disgwyl i chi ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad fel maen nhw’n cael eu nodi yn llawlyfr y staff.**




# *Rheolwr Masnchol*

# Manyleb y person


| **Rhinweddau personol** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Cyfathrebwr da | ✓ | |
| Ffocws cadarn ar dîm | ✓ | |
| Agwedd hyblyg / frwdfrydig at waith | ✓ | |
| Yn herio'r status quo yn weithredol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, gan chwilio am arfer da | ✓ | |
| Diddordeb mewn byd natur a'r amgylchedd ac angerdd drostynt | ✓ | |
| Da am ddatrys problemau / meddwl yn greadigol | ✓ | |
| Yn fodlon gweithio'n ymarferol yn ogystal â mabwysiadu trosolwg strategol | ✓ | |

| **Cymwyseddau allweddol** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Rheoli newid | | ✓ |
| Meddwl yn strategol | ✓ | |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | | ✓ |
| Datrys gwrthdaro | | ✓ |
| Craffter busnes rhagorol | ✓ | |
| DVLC a mynediad at eich cerbyd eich hun | ✓ | |




| **Profiad** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Profiad o neu wybodaeth am o leiaf un o'r canlynol: twristiaeth / manwerthu / arlwyo | ✓ | |
| Profiad o reoli cyllideb | ✓ | |
| Rheoli tîm amrywiol o staff (gwybodaeth am Adnoddau Dynol) | ✓ | |
| Rheoli seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr | | ✓ |
| Profiad o arwain twf busnes | | ✓ |
| Creu a rheoli perthnasoedd | ✓ | |

| **Gwybodaeth a sgiliau** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Gradd berthnasol neu brofiad digonol o weithio mewn maes cysylltiedig sy'n cynnwys y sgiliau allweddol sydd eu hangen | ✓ | |
| Gwybodaeth ymarferol am Iechyd a Diogelwch a'u defnydd yn y swydd hon | ✓ | |
| Sgiliau TG cadarn | | ✓ |
| Dealltwriaeth dda o Ddiogelu yng nghyd-destun y gwaith | | ✓ |
| Dealltwriaeth o bwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | ✓ | |
| Gwybodaeth am ganllawiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth | | ✓ |
| Dealltwriaeth o egwyddorion cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol yn ymwneud ag arlwyo, allfeydd manwerthu a gweithrediadau twristiaeth | ✓ | |
| Gallu yn yr Iaith Gymraeg | | ✓ |



# Manteision staff



**Gweithio hyblyg**
Mae ein hwythnos waith yn 35 awr. Rydyn ni'n gweithredu system waith TOIL oherwydd bod angen rhywfaint o weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol. Mae hefyd yn galluogi i'n tîm ni weithio'n hyblyg i ystyried ymrwymiadau a chyfrifoldebau personol.

**Pensiwn**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cynllun pensiwn sy'n cydymffurfio â chofrestru awtomatig gyda chyfraniad o 6% gan y cyflogwr o Bensiwn y Bobl.

**Gwyliau**
25 diwrnod a hefyd gwyliau banc, yn ogystal â gwyliau ychwanegol dros y Nadolig / Blwyddyn Newydd (5 diwrnod ychwanegol).

**Dyddiau gwirfoddoli**
Rydyn ni'n rhoi cyfle i'n staff ddefnyddio dau ddiwrnod gwaith y flwyddyn i wirfoddoli i dimau eraill o fewn ein Hymddiriedolaeth Natur, gan gynnwys ar Ynys Sgomer, neu i sefydliad arall.

**Dyddiau staff**
Rydyn ni'n cynnal diwrnod i'r staff i gyd yn yr haf i dimau gyfarfod wyneb yn wyneb ac ymweld â gwahanol warchodfeydd a chanolfannau ymwelwyr, gan gynnwys Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion ac Ynys Sgomer.

**Hyfforddiant**
Rydyn ni'n darparu cyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol i ddatblygu sgiliau a chymwysterau ein timau ymhellach.

**Costau teithio**
50c y filltir. Mae ceir cronfa i'w rhannu ar gael os byddwch yn eu harchebu.

# Dyddiadau allweddol

**Dyddiad cau y cais:**
Dydd Gwener 18fed Medi am 10am

**Dyddiad y cyfweliad:**
Dydd Gwener 2 Hydref yng Nghanolfan Natur Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd gwahoddiad i gyfweliad yn cael ei anfon at ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer erbyn 5pm ar ddydd Iau 24ain Medi.

## Sut i wneud cais

Cwblhewch ein ffurflen gais ar-lein neu anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau (sydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan ni) at info@welshwildlife.org gyda theitl y swydd fel y llinell bwnc.

Dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn ceisiadau os oes gennym reswm i gredu eu bod wedi'u cynhyrchu'n gyfan gwbl gan ddefnyddio adnoddau AI cynhyrchiol.

# Gwybodaeth gefndir

DWT Enterprises Ltd yw enw'r gangen fasnachu sy'n cefnogi Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Mae'r gangen fasnachu'n cynnwys y canlynol:

- Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru a'r adeiladau ategol sy'n cynnwys caffi, siop, cyfleusterau cyfarfod a llety i ymwelwyr.

- Lockley Lodge – siop a safle tocynnau ar gyfer Ynys Sgomer.

- Ynys Sgomer – llety i ymwelwyr.

- Ynys Sgogwm – llety i ymwelwyr.

Mae gweithrediadau ymwelwyr Ynysoedd Sgomer a Sgogwm yn cynnwys staff a systemau archebu a gweinyddu pwrpasol ar gyfer yr Ynysoedd.

- Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion – sy'n cael ei gweithredu o dan yr elusen, ond gyda siop sy'n dod o dan y gangen fasnachu

- Mae gan Ganolfan Ymwelwyr Parc Slip gaffi gydag ystafell digwyddiadau sy'n cael ei phrydlesu i drydydd parti.

Mae DWT yn cefnogi'r elusen drwy ddefnyddio cymorth rhodd ar y gwarged blynyddol a'i roi i'r elusen bob blwyddyn. Caiff gweithrediadau DWT eu rhedeg mewn ffordd sy'n ategu nodau ac amcanion yr elusen, gan roi sylw dyledus i gynaliadwyedd amgylcheddol a gyda ffocws ar hygyrchedd a chynhwysiant.

